

# Cyngor Tref Y Bala

## Cyfarfod Blynyddol

Mai 3ydd 2019

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts Y Dirprwy Faer O Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams

Dilwyn Morgan, Cyngorydd Cyngor Gwynedd, Lis Puw (*Clerc*).

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2018.
- 2 Etholwyd Eifion Roberts yn Faer am y flwyddyn 2019-20.
- 3 Etholwyd O Rhys Evans yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2019-20.
- 4 Penodwyd Cyngorwyr i weithredu ar is bwyllgorau (*gw. isod*).
- 5 Enwebwyd Alun Price yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru.
- 6 Enwebwyd 4 cynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn (*gweler isod*).
- 7 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor.
- 8 Adolygwyd a chadarnhawyd Côt Ymddygiad y Cyngor.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheoliadau Ariannol y Cyngor.
- 10 Cytunwyd i barhau i ddal Prydles Y Domen.
- 11 Cadarnhawyd y cytundeb rhwng y Cyngor Tref (fel aelod o Bartneriaeth Penllyn) â Chyngor Gwynedd.
- 12 Adolygwyd rhestr eiddo ac asedau'r Cyngor.
- 13 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant.
- 14 Apwyntiwyd Luned Fôn o Gyngor Gwynedd fel Archwilydd Mewnol 2019-20.
- 15 Derbyniwyd Cofrestr Presenoldeb 2018-19.
- 16 Cadarnhawyd Datganiadau Buddiant am y Flwyddyn 2018-19.
- 17 Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd 2019-20 (*gw. isod*)
- 18 Adroddiad y Maer ar y Flwyddyn 2018-19: Wrth gloi a therfynu ei blwyddyn fel Maer y Bala, diolchodd y Maer, Sharon Wyn Evans, am y fraint a'r pleser a gafodd o gynrychioli'r Cyngor a'r Dref fel Maer. Soniodd ei bod wedi cael cyfle i gynrychioli Cyngor Tref Y Bala ar nifer o achlysuron a'i bod wedi gallu gwneud cyfraniadau drwy Gronfa'r Maer. Diolchodd i'r Cyngorwyr i gyd am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn, a chyflwynodd anrheg hardd i'r Clerc am ei chefnogaeth hithau. Dywedodd ymhellach fod y Dirprwy Faer, Eifion Roberts,

## Cyngor Tref Y Bala

wedi bod yn gymorth mawr iddi ac roedd yn bleser ganddi drosglwyddo'r gadeiryddiaeth iddo.

- 19 Trosglwyddwyd y Gadair ac arwisgwyd Eifion Roberts fel Maer 2019-20. Cododd y Cyngor i gyfarch y Maer newydd, ac fe wnaeth yntau ddiolch i Sharon Evans am ddatblygu rôl y Maer yn ystod y flwyddyn a chodi proffil y Cyngor Tref wrth wneud hynny.

### CYNGOR TREF Y BALA – CYNRYCHIOLWYR 2019- 20:

Pwyllgor / Pwnc / Cynrychiolydd	Cynrychiolydd / Llefarydd
<b>Aelodau is-bwyllgorau</b>	
Is- Bwyllgor Cyllid	Dilys Evans, Eifion Roberts, Rhys Evans
Is bwyllgor Addurniadau Nadolig	Alun Price, Eluned Jones, Rhys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Morgan, Carol Rowlands
<b>Cynrychiolwyr o'r Cyngor</b>	
Canolfan Bro Tegid	Dilys Evans, Sharon Wyn Evans
Un Llais Cymru	Alun Price
Corff Llywodraethol Ysgol Bro Tegid*	Eifion Roberts
Corff Llywodraethol Ysgol Beuno Sant*	Edith Roberts
Pwyllgor Ysgol Godre'r Berwyn	Eifion Roberts, Sue Davies
Cymdeithas Chwaraeon Bala a Phenllyn	Tony Parry/J C Williams
Grwp Siopau	Sharon Evans/Eluned Jones /Carol Rowlands
Mynediad i'r anabl	Sue Davies
Partneriaeth Penllyn	<b>Cyfarwyddwyr y Cwmni a Partneriaeth Penllyn: Alun Price, Rhys Evans</b>  Pwyllgor y Bartneriaeth: Dilys Evans, John C Williams

\*Tan Medi 2019 pan fydd Ysgol Godre'r Berwyn yn agor.

#### **Dyddiadau Cyfarfodydd Cyngor Tref Y Bala 2019-20 a gynhelir yng Nghanolfan Henblas am 7.00pm:**

4/4/19	3/5/19	6/6/19	4/7/19	5/9/19	3/10/19
7/11/19	12/12/19	2/1/20	6/2/20	7/3/20	5/4/20

# Cyngor Tref Y Bala